**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**
—
**Public Accounts and Public Administration Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCCGG@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCCGG
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPAPA@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPAPA
0300 200 6565

3 Awst 2022

Adfywio Canol Trefi

Mae'r Pwyllgor wrthi'n cynnal ymchwiliad i adfywio canol trefi yng Nghymru. Cytunodd y Pwyllgor i fynd ar drywydd y mater hwn ar ôl i adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, *Adfywio Canol Trefi yng Nghymru*, gael ei gyhoeddi ym mis Medi 2021.

Fel rhan o'i waith craffu, clywodd y Pwyllgor gan yr Athro Karel Williams, o Ysgol Fusnes Alliance Manchester, ar 16 Mehefin 2022. Mae'r Pwyllgor bellach yn casglu tystiolaeth ysgrifenedig i ddylanwadu ar ei waith craffu pellach yn y maes hwn.

Fel rhan o'i ymchwiliad, mae'r Pwyllgor bwriadu ystyried y materion a ganlyn:

- Polisi cenedlaethol a deddfwriaeth sy'n hanfodol i adfywio trefi i'w galluogi i ffynnu a goroesi – penderfynu a yw'r ddeddfwriaeth ac ysgogiadau polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer adfywio yn addas at y diben ac yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r problemau sylfaenol sy'n wynebu trefi. Yn benodol, mae'r Pwyllgor am edrych ar bolisi cynllunio a pholisi Canol Trefi yn Gyntaf Llywodraeth Cymru.
- Creu clymbleidiau newid lleol a'u cynnal – sut mae awdurdodau lleol a'u partneriaid lleol, gan gynnwys dinasyddion a defnyddwyr gwasanaethau, yn rheoli ac yn adfywio trefi yng Nghymru ac yn ystyried a oes gan awdurdodau lleol a'u partneriaid allweddol y sgiliau iawn, yr arweinyddiaeth iawn, yr adnoddau iawn, yr ymrwymiad iawn a'r capasiti iawn i adfywio trefi.
- Ardrethi annomestig, cymhellion canol tref a threthi – mae ardrethi annomestig yn cael eu hystyried yn faich ar fusnesau bach, ond maent hefyd yn codi gwerth £1 biliwn ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ac maent yn hanfodol i iechyd ariannol

llywodraeth leol. Dangosodd y pandemig fod gallu awdurdodau lleol i weithio'n hyblyg i ddatblygu cymhellion yn hanfodol o ran helpu busnesau canol tref i oroesi. Beth sydd i'w ddysgu o'r pandemig a all lunio ymatebion?

- Argaeledd, rheolaeth ac effaith cyllid Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar gyfer adfywio canol trefi – asesu pa mor dda y mae arian yn cael ei ddefnyddio i adfywio canol trefi, ac a yw'n cynnig gwerth am arian.
- Bargeinion Dinesig a Phartneriaethau Rhanbarthol, a Chyd-bwyllgorau Corfforaethol – a oes mwy y gellir ei wneud ym maes datblygu economaidd rhanbarthol i helpu i adfywio trefi yng Nghymru ynteu a oes perygl y bydd y trefniadau hyn yn cymhlethu pethau mwy nag sydd angen.

Byddai'r Pwyllgor yn croesawu unrhyw dystiolaeth y gallwch ei darparu ar y materion hyn ac unrhyw dystiolaeth arall a fyddai, yn eich barn chi, yn berthnasol. Os ydych yn bwriadu darparu tystiolaeth ysgrifenedig i'r ymchwiliad hwn, byddem yn gwerthfawrogi cael eich ymateb erbyn 12 Medi 2022.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y llythyr hwn neu am waith y Pwyllgor yn y maes hwn, anfonwch nhw at y tîm clercio, a fydd yn fwy na pharod i helpu.

Cofion,

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.